# RHEOLWR MASNACHOL

Pecyn Ymgeisydd






# CYNNWYS

Amdano CPD Tref Aberystwyth
Crynodeb o’r Rôl
Prif Gyfrifoldebau
Sgiliau a Phrofiadau
Sut i Ymgeisio



# AMDANO
# CPD TREF ABERYSTWYTH

Mae CPD Tref Aberystwyth yn glwb pêl-droed cymunedol yng nghalon Ceredigion yng Ngorllewin Cymru. Mae ein timau dynion a merched yn cystadlu ar y lefel uchaf yng Nghymru, ac mae ein Hacademi a’n Canolfan Datblygu Merched yn helpu i ddatblygu chwaraewyr rhagorol. Yn ogystal â hyn, mae ein Stadiwm, Coedlan y Parc, yn ganolbwynt sydd ar gael i'r gymuned leol yn ddyddiol.

Rydym yn chwilio am Reolwr Masnachol profiadol i reoli ac optimeiddio cytundebau nawdd a chontractau masnachol presennol, a chynyddu ffrydiau refeniw y clwb.




# CRYNODEB O'R RÔL

**Teitl Swydd:** Rheolwr Masnachol
**Atebol i:** Pwyllgor y Clwb
**Lleoliad:** Stadiwm Coedlan y Parc, Aberystwyth
**Cyflog:** £28,000 - £30,000 yn dibynnu ar brofiad ynghyd â bonws yn dibynnu ar chyflenwad DPA
**Trosolwg Swydd:** Fel Rheolwr Masnachol CPD Tref Aberystwyth, byddwch yn chwarae rôl ganolog wrth lunio gweithrediadau masnachol, twf a llwyddiant cyffredinol y Clwb. Byddwch yn gyfrifol am oruchwylio agweddau masnachol y Clwb gyda ffocws ar ddatblygu strategaeth fasnachol, cynyddu cytundebau nawdd, datblygu strategaeth marchnata a brand y Clwb ynghyd ag adnabod cyfleoedd masnachol a phartneriaeth newydd.

# PRIF GYFRIFOLDEBAU

- Datblygu a gweithredu, ynghyd â'r Bwrdd, strategaeth fasnachol hirdymor, i gynyddu refeniw yn y clwb.
- Nodi a sicrhau nawdd newydd a chyfleoedd partneriaeth.
- Rheoli ac optimeiddio cytundebau nawdd a chontractau masnachol presennol.
- Creu a goruchwylio strategaethau tocynnau a marchnata er mwyn sicrhau'r gwerthiant ac ymgysylltiad mwyaf posibl.
- Datblygu ymgyrchoedd marchnata i wella amlygrwydd ac ymgysylltiad brand y clwb.
- Goruchwylio ymdrechion marchnata digidol, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol, cynnwys gwefan, a marchnata e-bost.
- Cydweithio â thîm y cyfryngau i hyrwyddo gweithgareddau, gemau a digwyddiadau'r clwb.
- Cydlynu'r holl weithgareddau masnachol ar ddiwrnodau gêm, gan gynnwys lletygarwch, tocynnau a manwerthu.
- Gwella profiad diwrnod gêm ar gyfer cefnogwyr a phartneriaid corfforaethol i ysgogi presenoldeb ac ymgysylltiad.
- Paratoi a rheoli'r gyllideb fasnachol, gan sicrhau aliniad ag amcanion cyffredinol y clwb.
- Monitro perfformiad ariannol ac adrodd ar weithgareddau masnachol i reolwyr y clwb.
- Meithrin a chynnal perthnasoedd cryf â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys noddwyr, partneriaid, a'r cyfryngau.




# SGILIAU A PHROFIADAU

- Profiad profedig mewn rôl fasnachol o fewn clwb, sefydliad chwaraeon a/neu amgylchedd corfforaethol.
- Profiad o negodi masnachol a rheoli contractau.
- Profiad o ddatblygu a gweithredu strategaethau marchnata.
- Sgiliau rheoli ariannol cryf a phrofiad cyllidebu.
- Sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol eithriadol.
- Hyfedredd mewn llwyfannau marchnata digidol.
- Y gallu i ddatblygu a chynnal perthnasoedd cryf o fewn ystod eang o randdeiliaid allweddol.
- Trwydded yrru lawn lân y DU




# SUT I YMGEISIO

**Anfonwch y canlynol i Thomas Crockett**

- CV diweddar yn nodi hanes eich gyrfa, gyda chyfrifoldebau a chyflawniadau allweddol ynghyd â dau eirda.
- datganiad ategol yn amlinellu eich addasrwydd ar gyfer y rôl a'r gwerth y bydd eich arbenigedd yn ei ychwanegu at CPD Tref Aberystwyth.

Dyddiad cau: **5yh, Dydd Llun 8fed o Orffennaf 2024**

Ebostiwch Thomas Crockett - tcrockettinterlinkrct@hotmail.co.uk